**Gwasanaeth Democrataidd**
**Democratic Service**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod / Meeting

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL

# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

Dyddiad ac Amser / Date and Time

***2.15PM, DYDD IAU, 7 MAWRTH, 2013**
***2.15PM, THURSDAY, 7 MARCH, 2013**

*(*Cynhelir cyfarfod rhagarweiniol i'r aelodau am **1.45pm** / *A pre-meeting will be held for members at **1.45pm**).*

*(*Nodwch amser cychwyn y cyfarfod ogydd / *Please note meeting start time)*

Lleoliad / Location

**YSTAFELL DWYRYD**
**CANOLFAN GYSWLLT / CONTACT CENTRE**
**UNED 2 / UNIT 2**
**PARC BUSNES ERYRI / ERYRI BUSINESS CENTRE**
**MINFFORDD**
**PENRHYNDEUDRAETH**

*(*Nodwch y lleoliad ogydd / *Please note venue)*

Pwynt Cyswllt / Contact Point

**Eirian Roberts**

**(01286) 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

*(DOSBARTHWYD / DISTRIBUTED 27/02/13)*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL
# CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE

## AELODAETH/MEMBERSHIP (18)

### Plaid Cymru (9)
Y Cynghorwyr / Councillors
Elwyn Edwards
Aled Evans
Selwyn Griffiths
Charles Wyn Jones
Dyfrig Jones
Dafydd Meurig
Michael Sol Owen
Mair Rowlands
Gareth Thomas

### Annibynnol / Independent (4)
Y Cynghorwyr / Councillors
Lesley Day
Trevor Edwards
Eryl Jones-Williams
Eirwyn Williams

### Llais Gwynedd (3)
Y Cynghorwyr / Councillors
Gweno Glyn
Simon Glyn
Jason Humphreys

### Llafur / Labour (1)
Y Cynghorydd / Councillor
Gwynfor Edwards

### Rhyddfrydwyr Democrataidd / Liberal Democrats (1)
Y Cynghorydd / Councillor
June Marshall

### Aelodau Ex-officio / Ex-officio Members
Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor / Chairman and Vice-Chairman of the Council

### Eraill a wahoddir / Others invited

Y Cynghorydd / Councillor John Wynn Jones - Aelod Cabinet Economi / Cabinet Member Economy (eitem / item 5)
Y Cynghorydd / Councillor Dyfed Edwards – Arweinydd y Cyngor / Council Leader (eitem / item 6).

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION**

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 31 Ionawr, 2013 fel rhai cywir (copi yma – papur glas).

*Noder – amcan yn unig yw'r amseroedd a nodir isod*

**5. POLISI CAFFAEL CYNALIADWY**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Derbyn sylwadau a thystiolaeth gan:-

(a) Llwyddo mewn Tendro – Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Bangor.
(b) Busnes Cymru – Cymorth i Dendro (papur cefndir ynghlwm - papur eog).
(c) Contractwr
(ch) Blaenau Ymlaen.

Gofynnir i'r aelodau ddod â'u copi o'r adroddiad ar y Polisi Caffael Cynaliadwy a gyflwynwyd i gyfarfod 31 Ionawr, 2013 o'r pwyllgor hwn gyda hwy i'r cyfarfod.

http://www.gwynedd.gov.uk/gwy_pwyllgorau.asp?cat=7587&doc=28299&Language=2

*2.25pm – 4.15pm*

**6. AGENDA GWLEDIG - TREFOL**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dyfed Edwards**

Ystyried adroddiad y Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu (copi yma – papur melyn).

*4.15pm – 4.30pm*

**7. RHAGLEN WAITH FLYNYDDOL**

Cyflwyno’r fersiwn ddiweddaraf o'r rhaglen waith (copi yma – papur lelog).

*4.30pm*

# PWYLLGOR CRAFFU CORFFORAETHOL, 31.01.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Simon Glyn (Cadeirydd).

Y Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards, Gwynfor Edwards, Trevor Edwards, Gweno Glyn, Selwyn Griffiths, Jason Humphreys, June Marshall, Dafydd Meurig, Mair Rowlands, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.

**Hefyd yn bresennol:** Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Comisiynu Corfforaethol), Vera Jones (Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd), Gareth James (Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu) Ann E. Roberts (Swyddog Gwella Perfformiad Cynorthwyol Craffu) a Gwyn Parry Williams (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Yn bresennol ar gyfer eitem 3 isod:-**

Y Cynghorydd John Wynn Jones (Aelod Cabinet Economi);
Nicola Day (Rheolwr Caffael Corfforaethol)

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Aled Evans, Charles W. Jones, Dyfrig Jones, Eryl Jones-Williams, Michael Sol Owen

<u>Croeso</u>
Estynnodd y Cadeirydd groeso i'r cyfarfod i gynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a Thîm Cymheiriaid o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a oedd yn arsylwi'r pwyllgor.

**1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**2. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr, 2012 fel rhai cywir.

<u>Mater yn Codi</u>
<u>Cofnod 3 – Yr Agenda Wledig</u>

Mewn perthynas â'r cyfeiriad yn y cofnod y byddai yna "fibrespeed" digonol yn y rhan fwyaf o Wynedd erbyn tua mis Mawrth, gofynnodd aelod beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf.

Mewn ymateb, nododd yr Aelod Cabinet Economi iddo adrodd i'r cyfarfod diwethaf ei fod yn obeithiol y byddai hyn yn weithredol ym Mawrth eleni ond yn anffodus 'roedd yr amserlen wedi llithro ychydig am wahanol resymau ond disgwylir y gellir dechrau'r gwaith yn ystod mis Mehefin 2013 .

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

**3. POLISI CAFFAEL CYNALIADWY**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

(a) Cyflwynwyd adroddiad cynnydd yr Aelod Cabinet Economi ar lwyddiannau'r Polisi Caffael Cynaliadwy ynghyd â meysydd i wella.

(b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau ac i ofyn cwestiynau. Ymatebodd yr Aelod Cabinet a'r swyddog yn briodol a gwnaed y prif bwyntiau canlynol -

- Datblygwyd y Teclyn Caffael Cynaliadwy i ymwneud â chontractau tros £500k.
- Golygai tipyn o waith i ddau gytundeb dderbyn sylw gan y Gweithgor Caffael Cynaliadwy.
- Bod perfformiad ar gontractau dan £500k yn aneglur/ymddangos yn wael oherwydd mai yn ystod y flwyddyn ddiwethaf y gofynnwyd am hyn.
- Ei bod yn bwysig nodi beth yw cynnwys y strwythur caffael.
- Nid yw'r Uned Caffael yn derbyn gwybodaeth am bob cytundeb mae'r Cyngor yn ei gael ond ceisir gwneud mwy o waith ar hyn er mwyn adnabod y contractau hynny.
- Y penderfynwyd yn Nhachwedd 2012 i ymrwymo i'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol parthed contractau cenedlaethol. Nodwyd mai 15% o wariant y Cyngor sydd ynghlwm â'r gwasanaeth hwn.
- Bod y cyfan o Gynghorau Sir Gogledd Cymru wedi ymuno mewn Bwrdd Uchelgais gyda'r Cyngor hwn yn cymryd y rôl arweiniol yn y maes caffael.
- Mai mater i'r Adran Datblygu Economaidd yw cadw manylion am nifer y swyddi a greeir ac a warchodir yn sgîl y contractau. 'Roedd yn bwysig datblygu sgiliau/prentisiaid sy'n angenrheidiol i economi'r ardal. Cymerodd y Cyngor ran mewn datblygu Cwmni Prentisiaid Gwynedd. Cytunwyd bod manylion am nifer y swyddi i'w cyflwyno i'r pwyllgor nesaf ar 7 Mawrth 2013.
- Nid oes arbedion wedi eu hadnabod drwy'r Polisi Caffael Cynaliadwy ond mae yna darged arbedion yn erbyn cynlluniau eraill. Pwyslais y polisi yw canolbwyntio ar uchafu buddion yn codi allan o faterion economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.
- Bod y ffigur o 70% ar gyfer 2010/11 yn Atodiad 1(b) o'r adroddiad ar gyfer busnesau bach a chanolig o fewn Cymru a bod y ffigur o 35.7% yn Atodiad 3 o'r adroddiad ar gyfer 2011/12 o fewn Gwynedd.
- Bod y gymhariaeth rhwng 2010 a 2011 i'w weld yn Atodiad 3 o'r adroddiad sy'n nodi perfformiad Gwynedd yn unig. Nid yw'r gymhariaeth gyda chynghorau eraill ar gael.
- Bod y Gweithgor angen gweld ym mhle mae'r Cyngor yn gwario tu allan i Gymru a hefyd i dderbyn gwybodaeth ynglyn â chanran gwariant tros £500k o'i gymharu â gwariant rhwng £50k a £500k.
- Gan nad yw'n bosibl i'r Aelod Cabinet allu ymateb i'r holl gwestiynau a ofynnir, cytunwyd bod manylion am y cwestiynau i'w hanfon ato er mwyn iddo gael cyfle i'w hateb.

.**PENDERFYNWYD**
**a) Cefnogi'r cynnydd hyd yma.**
**b) Pwysleisio'r angen i wasanaethau ddefnyddio'r gefnogaeth caffael sydd ar gael a chydymffurfio gyda'r polisi caffael cynaliadwy.**
**c) Sefydlu Gweithgor i ystyried cynnal ymchwiliad craffu i'r perfformiad ar gytundebau rhwng £50k a £500k, adnabod ymarfer da ac argymell gwelliannau.**
**ch) Trafod yn y cyfarfod ar 7 Mawrth y math o Weithgor a fyddai'n dderbyniol ond yn y cyfamser bod y Cynghorwyr Gwynfor Edwards, Dafydd Meurig a Mair**

**Rowlands i drafod gyda'r Aelod Cabinet, briff y Gweithgor a.y. a chyflwyno argymhellion i'r cyfarfod nesaf.**

**4. YMCHWILIAD CRAFFU MEDDYLFRYD SYSTEMAU**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Peredur Jenkins**

a) Cyflwynwyd adroddiad y Cynghorydd Gareth Thomas, Cadeirydd yr Ymchwiliad yn rhoddi manylion am y prif faterion a amlygwyd gan yr ymchwiliad mewn dau gynllun peilot a gynhaliwyd yn Ardal Arfon sef y Gwasanaeth Cynnal a Chadw (Tîm Ymyrraeth) a'r Gwasanaeth Digartrefedd. Rhoddodd grynodeb o weithgaredd yr ymchwiliad a'r prif ganfyddiadau.

Diolchodd i'w gyd-aelodau a'r swyddogion am eu gwaith ynghlwm a'r ymchwiliad.

b) Rhoddwyd cyfle i'r aelodau gyflwyno sylwadau ac i ofyn cwestiynau, Ymatebodd Cadeirydd yr Ymchwiliad yn briodol a gwnaed y prif bwyntiau canlynol -

- Dewiswyd y ddau faes oherwydd eu bod yn feysydd hollol wahanol.
- Bod effaith y gwaith "systemau" ar y staff oedd yn gweithio yn y gwasanaeth wedi effeithio ar eu morâl. Nodwyd bod y Cwmni Vanguard yn gweithio'n galed yn enwedig yn y cyfnod cyntaf. 'Roedd teimlad hefyd i'r ddau gynllun peilot redeg rhy hir.
- Nid oes bwriad i ailstrwythuro adrannau ond dylent edrych ar bethau mewn ffordd gwahanol. Nid yw'n arf i wneud arbedion ond yn hytrach yn arf i newid ffordd pobl i feddwl am eu gwaith a beth sy'n angenrheidiol i roddi gwasanaeth da i'r cwsmer.
- Bod yn angenrheidiol i swyddogion ar lefel uchel brynu i mewn y meddylfryd "command and control". Ar lefel rheolwyr y gwasanaethau hyn, 'roedd yna ddealltwriaeth trylwyr iawn o'r meddylfryd systemau hwn.

**PENDERFYNWYD gofyn i'r Aelod Cabinet Adnoddau roddi ystyriaeth i'r argymhellion canlynol –**
**a) Ymestyn Meddylfryd Systemau ar draws y Cyngor.**
**b) Sicrhau dealltwriaeth drwyadl yr Aelodau Cabinet ac Uwch Reolwyr o egwyddorion Meddylfryd Systemau er mwyn gwireddu'r potensial i ail-gynllunio gwasanaethau'r Cyngor er budd y cwsmer.**
**c) Darparu cefnogaeth lawn i gynnal y "day job" tra bo'r swyddogion yn gweithio ar gynllun meddylfryd systemau.**
**ch) Datblygu'r cynllun ar draws y Cyngor drwy daro balans rhwng gwneud y gwaith yn fewnol a chael mewnbwn allanol ac annibynnol yn ôl yr angen.**
**d) Bod y wybodaeth a gafwyd gan y cwsmeriaid a'r partneriaid yn cael ei ystyried yn drylwyr er mwyn asesu natur y galw a gwir anghenion y cwsmer.**
**dd) Bod y mesuryddion priodol yn cael eu hystyried yn ofalus er mwyn medru asesu llwyddiannau a phroblemau gyda gweithredu'r cynllun ar draws y Cyngor gan adrodd ar unrhyw faterion o bryder i'r Cabinet.**
**e) Nodi i'r broses hyd yn hyn fod yn rhy araf – mae'n hanfodol sicrhau bod y gwaith yn mynd rhagddo'n gyflymach yn y dyfodol.**
**f) Bod gwaith yn cael ei wneud ar fyrder i asesu costau'r cynllun er mwyn adnabod beth yw maint y gwariant ac unrhyw arbedion a ddeilliodd ohono hyd yn hyn ac i ystyried tafluniad tros gyfnod oes y Cyngor hwn.**

**5. YR AGENDA WLEDIG**
**Aelod Cabinet: Y Cynghorydd John Wynn Jones**

Cyflwynwyd adroddiad y Cadeirydd yn cyfeirio at sylwadau'r tri pwyllgor ardal ar y mater. 'Roedd o'r farn y byddai'n fuddiol i banel o ddau neu dri aelod ddadansoddi'r sylwadau hyn er ceisio cynnig cyfeiriad i'r pwyllgor.

Cyfeiriodd aelod at y balans rhwng gwasanaethau gwlad a thref ac os y sefydlir gweithgor, yna dylid cael cydbwysedd gwledig/trefol arno.

**PENDERFYNWYD**
**a) Sefydlu'r Gweithgor canlynol ar sail cydbwysedd gwledig/trefol i ddadansoddi sylwadau'r tri pwyllgor ardal -**
**Y Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards, Gweno Glyn, June Marshall, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.**
**b) Bod y Gweithgor i gyfarfod i ystyried y brîff a'i gyflwyno i ystyriaeth y pwyllgor ar 7 Mawrth 2013.**

<u>**Cyfarfod paratoi y Pwyllgor Craffu Corfforaethol**</u>

Nododd y Cadeirydd y rhaglenwyd y cyfarfod paratoi ar gyfer y diwrnod canlynol sef 1 Chwefror 2013 ond gan yr ystyrid y "Polisi Caffael Cynaliadwy" a'r "Agenda Wledig" ymhellach yn y pwyllgor nesaf ar 7 Mawrth 2013 , 'roedd o'r farn y byddai'r ddwy eitem hon yn ddigonol ar gyfer y cyfarfod hwnnw. Yn wyneb hynny, ni fyddai angen cynnal y cyfarfod paratoi ar 1 Chwefror 2013.

Atgoffodd y Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu yr aelodau y cytunwyd yn y cyfarfod paratoi diwethaf i wahodd gwahanol gyrff megis Menter a Busnes, rhai o'r contractwyr llwyddiannus/aflwyddiannus a.y. i'r cyfarfod nesaf i drafod "Caffael Cynaliadwy". Gan y byddai ffurf y cyfarfod nesaf ar 7 Mawrth 2013, ychydig yn fwy anffurfiol, awgrymwyd y dylid ei gynnal mewn lleoliad tu allan i swyddfeydd y Cyngor.

**PENDERFYNWYD cynnal y cyfarfod nesaf ar 7 Mawrth 2013 yn Ystafell Dwyryd, Canolfan Gyswllt, Penrhyndeudraeth ond os y canfyddir bod y mwyafrif o'r cynrychiolwyr o'r gwahanol gyrff a.y. a wahoddir i'r cyfarfod hwnnw yn dod o ardaloedd tu allan i Penrhyndeudraeth, yna ymddiried i Gadeirydd y Pwyllgor, mewn ymgynghoriad â'r Is-gadeirydd i newid y lleoliad os bydd angen.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.45pm.

**LLYWODRAETH CYMRU - BUSNES CYMRU - CYMORTH I DENDRO**

Mae dod o hyd i'r cyflenwr cywir yn hanfodol i unrhyw sefydliad llwyddiannus. Nôd Cefnogaeth Tendro Busnes Cymru yw helpu busnesau i greu cysylltiadau rhyngfasnachol effeithiol ac i ddarparu cymorth ymarferol i fusnesau bach a chanolig i ennill cytundebau yn y sector breifat a'r sector gyhoeddus.

Daeth y rhaglen i fodolaeth ar y 1af o Ionawr 2013. Mae'r sector gyhoeddus yng Nghymru yn gwario tua £4.3biliwn y flwyddyn ond 51% yn unig o'r gwariant sy'n aros yng Nghymru - am bob 1% ychwanegol byddai'n creu 2,000 o swyddi. Felly, ceisio sicrhau fod cwmnïau yng Nghymru yn ennill mwy o gytundebau'r sector gyhoeddus a phreifat yw amcan y rhaglen.

**Prif nod y gwasanaeth datblygu cyflenwyr yw:**

- Cymorth i fusnesau i ddarganfod cyfleon tendro addas, yn bennaf o fewn y sector gyhoeddus
- Creu perthynas sefydlog gyda Swyddogion Caffael yn y Sector Gyhoeddus
- Cymorth i lenwi ffurflenni tendro a holiaduron cyn-gymhwyso
- Trefnu nifer o ddigwyddiadau yn cynnwys Gweithdai Sut i Dendro ar ddau lefel, Rhagarweiniad ac Lefel Uwch, Gweidai GwerthwchiGymru, E-gaffael, Cwrdd â'r Prynwr a digwyddiadau Briffio Cyflenwyr
- Gwefan y rhaglen ydi y wefan gaffael genedlaethol www.gwerthwchigymru.co.uk

**Gweithgareddau Allweddol**
Bydd y Prosiect yn:

- Helpu busnesau neu'r sector gyhoeddus i brynu nwyddau a gwasanaethau oddi wrth gyflenwyr lleol.
- Helpu i baratoi busnesau lleol o ateb gofynion prynwyr sy'n gweithredu o fewn y sector breifat a'r sector gyhoeddus.
- Hwyluso'r cyfleoedd i fusnesau gydweithio er mwyn ceisio ennill cytundebau mawr.
- Darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i fusnesau lleol ar gontractau / cyfleoedd busnes posib.

**Pwy sy'n Gymwys i wneud Cais?**

- Cwmniau o fewn y sector Breifat gyda hyd at 249 o weithwyr, ac sydd a pherchennog annibynnol neu safle ymreolaethol yng Nghymru.
- Busnesau cymunedol a mentrau cymdeithasol nid ar elw.

Mae Menter a Busnes yn gyfrifol am ddarparu'r gwasanaeth yn Siroedd Môn, Gwynedd, Conwy, Dinbych, Fflint a Wrecsam, Powys a Cheredigion ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru.

**Fersiwn 1.00 o'r Sgôp          7 Mawrth 2013**

| | |
|---|---|
| **ENW'R PWYLLGOR CRAFFU** | **CORFFORAETHOL** |
| **DYDDIAD Y CYFARFOD** | **7 Mawrth 2013** |
| **TEITL** | **Agenda Gwledig-trefol** |
| **AWDUR** | **Gareth James**<br>**Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu** |
| **AELOD CABINET** | **Cyng Dyfed Edwards, Arweinydd y Cyngor** |
| | |
| **PWRPAS** | • **Gwneud sylwadau am y Brîff drafft**<br>• **Cytuno'r Brîff** |

| | |
|---|---|
| CYFEIRNOD | YMCH 5 |
| Grŵp AELODAU ARWEINIOL o'r Pwyllgor Craffu | Cynghorwyr:<br>1 Lesley Day<br>2 Elwyn Edwards<br>3 Gweno Glyn<br>4 June Marshall<br>5 Gareth Thomas<br>6 Eirwyn Williams |
| SWYDDOG ARWEINIOL | Gareth James<br>Rheolwr Cefnogi Aelodau a Chraffu |
| CEFNOGAETH a GWEINYDDIAETH | Ann E Roberts<br>Swyddog Gwella Perfformiad a Chraffu<br>Eirian Roberts<br>Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu |

Draft

**Fersiwn 1.00 o'r Sgôp 7 Mawrth 2013**

1 <u>Cefndir</u>

Yn ystod y Gweithdai Craffu Blynyddol a gynhaliwyd ym misoedd Mehefin a Gorffennaf 2012, fe godwyd amryw bynciau gan y cynghorwyr a oedd newydd fynd drwy etholiadau i'r Cyngor ym mis Mai.

Yn ystod eu gwaith canfasio fe gafwyd amryw negeseuon gan eu hetholwyr ynglŷn â materion a oedd angen sylw gan y Cyngor. Er bod y materion yma'n amrywiol yn eu hanfod, mae iddynt thema gyffredin.

Dyma rai o'r prif faterion a godwyd: trafnidiaeth ddiffygiol neu anaddas, cost tanwydd ar gyfer teithio a gwresogi, diffyg tai addas yn lleol, prinder swyddi, gwasanaethau cyhoeddus a phreifat anghyfleus a phellennig, dirywiad cymdeithasol.

Fe roddwyd peth sylw i rai o'r materion yma eisoes drwy'r Ymchwiliad Craffu Tai ac eitemau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Craffu Cymunedol ar Dai, Cludiant Cyhoeddus; craffu'r Strategaeth Addysg a darpariaeth gofal yn y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau a'r gwaith ar y Polisi Caffael Cynaliadwy yn y Pwyllgor yma.

Serch hynny, roedd aelodau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ystyried bod angen edrych yn benodol ar yr elfennau yma i gyd i weld a oedd agwedd gyffredin i'r holl elfennau yma o safbwynt effaith ar drigolion y Sir a beth oedd y Cyngor yn ei wneud i ddelio â hynny. Cafwyd sylwadau gan y tri Phwyllgor Ardal , ac yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol ar 31 Ionawr 2013, fe benodwyd y chwe aelod uchod i sgopio'r gwaith yma ymhellach gyda'r swyddogion ac i ddod yn ôl gyda Brîff drafft er ystyriaeth y Pwyllgor heddiw.

(Gweler hefyd gofnod cyfarfod y Grŵp ar 20 Chwefror 2013)

2 <u>Pwrpas yr Ymchwiliad</u>

Bydd yr Ymchwiliad yn anelu at ateb y prif gwestiynau yma:

a) Beth yw'r enghreifftiau o gynlluniau llwyddiannus i gynyddu cynhwysiad yng Ngwynedd?
b) Nodi ac ystyried enghreifftiau o arfer da y tu allan i'r Sir
c) Nodi argymhellion i'r Cyngor weithredu arnynt yn uniongyrchol ac fel partner i hybu gwella cynhwysiad.

3 <u>Sut</u>

- Rhoi asesiad clir o gynlluniau sy'n gwella cynhwysiad ar draws y Sir.
- Rhoi ystyriaeth briodol i rwystrau a sut i'w datrys
- Nodi cryfderau, llwyddiannau a gwersi i'w dysgu

Drafft

- Nodi arfer da a chyfleoedd i wella
- Ystyried bwriadau'r Cynllun Strategol newydd i ddelio gyda'r materion a godwyd yn yr Ymchwiliad
- Llunio argymhellion clir yn seiliedig ar dystiolaeth i Arweinydd y Cyngor eu hystyried

4 Cyfnod yr Ymchwiliad

| | |
|---|---|
| Cychwyn yr Ymchwiliad | Ebrill 2013 |
| Diwedd yr Ymchwiliad | Medi 2013 |
| Adroddiad i sylw'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol | 14 Tachwedd 2013 |
| Adroddiad oddi wrth Craffu at y Weithrediaeth | Rhagfyr 2013 |

5 Rhaglen

Amlinelliad o'r prif gamau a chyfarfodydd
Bydd gofyn i'r aelodau wneud gwaith ychwanegol rhwng y cyfarfodydd

| | |
|---|---|
| 1 | Cyflwyniad gan Arweinydd y Cyngor a'i swyddogion ar y prif elfennau perthnasol dan ystyriaeth ar gyfer y Cynllun Strategol newydd |
| 2 | Mapio Cynhwysiad Gwledig-Trefol<br>Nodiadau Briffio'r aelodau gan Swyddogion Craffu gyda chefnogaeth y Swyddogion Ymchwil ar faterion perthnasol o safbwynt mapio cynhwysiad:<br>• Barn y Panel Dinasyddion<br>• Canlyniad unrhyw ymgynghori<br>• Cyswllt gyda'r Strategaeth Gymunedol<br>• Cyswllt gyda Chynllun Strategol y Cyngor<br>• Cynlluniau/strategaethau/polisïau perthnasol<br>• Cynlluniau a mentrau allanol |
| 3 | Sesiwn Cynllunio Rhaglen Waith<br>Cytuno cwestiynau ac Ymweliadau o fewn y Sir –<br>Cynlluniau'r Cyngor a'i Bartneriaid |
| 4 | • Casglu, tafoli a chrynhoi sylwadau perthnasol ar gynlluniau'r Cyngor a'i Bartneriaid<br>• Cytuno cwestiynau ac Ymweliadau o fewn y Sir ar gynlluniau sy'n cael eu cynnal yn annibynnol o'r Cyngor e.e. '*Y Dafarn yw'r Galon'* |
| 5 | • Casglu, tafoli a chrynhoi sylwadau perthnasol ar gynlluniau |

Drafft

| | |
|---|---|
| | sy'n cael eu cynnal yn annibynnol o'r Cyngor ond o fewn y Sir<br>• Cytuno ar gwestiynau ac ymweliadau â chynlluniau arloesol y tu allan i'r Sir |
| 6 | Sesiwn Cynllunio<br>Ystyried yr wybodaeth a gafwyd hyd yn hyn a chynllunio gweddill y rhaglen waith |
| 7 | Trefnu Ymweliad ag ardal arall os yn briodol |
| 8 | Sesiwn cwestiynu a thrafod prif ganfyddiadau gyda:<br>• Arweinydd y Cyngor<br>• Cyfarwyddwyr perthnasol<br>• Penaethiaid a Swyddogion eraill fel yn briodol |
| 9 | Dadansoddiad<br>• Ystyried a chrynhoi'r wybodaeth a phrofiadau<br>• Cwestiynu'r Aelod Cabinet ymhellach os oes angen<br>• Cytuno'r prif argymhellion ar gyfer yr adroddiad a'r ffordd ymlaen |
| 10 | Pwyllgor Craffu i ystyried yr adroddiad drafft a'r argymhellion |

**Grŵp Ymchwil Craffu - Agenda Gwledig**
**Nodiadau cyfarfod anffurfiol – 20 Chwefror 2013**

Presennol: Cynghorwyr Gweno Glyn, Gareth Thomas ac Eirwyn Williams.
Swyddogion: Gareth James ac Ann Roberts.
Ymddiheuriadau: Cynghorwyr Lesley Day, Elwyn Edwards a June Marshall.

Pwrpas y Cyfarfod: I drafod sgôp y briff ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar y 7fed o Fawrth.

1. Penderfynwyd peidio diffinio 'gwledig' gan fod Gwynedd i gyd yn wledig heblaw am Gaernarfon a Bangor.
2. Nodwyd y pwysigrwydd i beidio sgopio rhy eang a chadw at elfen benodol.

Trafodwyd yr opsiynau

1. Tlodi Tanwydd – nodwyd bod y Pwyllgor Craffu Corfforaethol wedi edrych ar hwn ar 13 Rhagfyr.

2. Mynediad at Wybodaeth e.e. Buddiannau – nodwyd bod y Pwyllgor Craffu Cymunedau wedi penderfynu edrych ar y maes yma yn ei gyfarfod diwethaf.

3. Cynhwysiad Cymdeithasol - Nodwyd bod elfennau y gall y grŵp canolbwyntio arnynt ond bod angen sicrhau briff tynn. Trafodwyd a nodwyd y gall y grŵp ystyried

   - dysgu o Cymunedau'n Gyntaf ond ni ddylid rhoi gormod o bwyslais ar beth wnaed o dan Cymunedau'n Gyntaf. Gellir ystyried ffyrdd arloesol o symud ymlaen o Cymunedau'n Gyntaf ac edrych os ydi'r mentrau arloesol yn cael cefnogaeth i ehangu. Edrych os oes ffyrdd gwahanol o gynnig y gwasanaethau - 3ydd sector, preifat, ayyb.

   - trafnidiaeth fel 'o ddrws i ddrws' fel sydd yn ardal Llŷn ac ehangu ar draws Gwynedd. Gall bydd arbedion yn dod o hyn hefyd. Edrych ar opsiynau eraill o ddarparu trafnidiaeth yn ardaloedd ble nad oes gwasanaeth bws agos. Nodwyd bod twristiaeth yn dibynnu ar wasanaethau bysus. Adroddwyd bod sôn wedi bod am hybs o fewn y prosiect Cludiant Cymunedol.

   - dod a gwasanaethau Optegydd ac eraill yn nes at y bobl. Nodwyd bod rhaid bod yn ofalus wrth ddewis briff gan fod y Bwrdd Iechyd yn crebachu ar eu gwasanaethau ac unwaith byddant wedi tynnu gwasanaeth allan o ardal bydd y galw wedyn ar Gyngor Gwynedd i ddarparu'r gwasanaeth.

4. Unigedd Cymdeithasol – nodwyd bod llawer yn digwydd yn y maes yma yn Llŷn yn barod.

5. ‘Y Dafarn yw’r Galon’ - nodwyd bod cyfarfod 19 Chwefror ym Mryncir i annog trwyddedai gwledig i drafod cynllun “Y Dafarn yw’r Galon” a reolir gan Cadwyn Clwyd ar ran Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth ariannol gan Gronfa Cefn Gwlad y Tywysog.

6. Grymuso Cymunedau - Nodwyd bod prosiect hwn yn y Cynllun Strategol.

7. Broadband - Nodwyd bod rhaglen waith yn bodoli ar draws Gwynedd.

Cytunwyd:

Bod y drafodaeth wedi bod yn sail i gychwyn ar y gwaith o edrych ar wasanaethau’r Cyngor a’r opsiynau, a ffyrdd eraill o’u darparu.

Defnyddio gwybodaeth o’r Cyfrifiad diweddaraf fel sail i’r ymchwiliad.

I drafod gydag Arweinydd y Cyngor, Mantell Gwynedd ac eraill.

Cynnal cyfarfodydd y Grŵp Ymchwil Craffu yn ardal Penrhyndeudraeth.

20/2/2013.

Blaenraglen Craffu Mehefin 2012 ymlaen – Fersiwn 2.00 (07.02.13)

**Noder – mae hon yn raglen fyw sy’n cael ei diweddaru’n gyson**

A Pwyllgor Craffu Corfforaethol

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 1 | Strategaeth Gymunedol | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 2 | Strategaeth Arbedion | 14.06.12 | 19.07.12 |
| 3 | Meddylfryd Systemau (Ymchwiliad Craffu) | 14.06.12 | 31.01.13 |
| 4 | Cynllun Gwella | 06.09.12 | 02.10.12 |
| 5 | Cydbwysedd Gwledig a Threfol | 06.09.12<br>02.10.12 | 13.12.12<br>07.03.13 |
| 6 | Partneriaethau a Chydweithio<br>Asesu cynnydd | 19.12.12 | |
| 7 | Caffael Cynaladwy | 19.12.12 | 31.01.13<br>07.03.13 |
| 8 | Cynllun Strategol y Cyngor | | |
| 9 | Y Cyngor a’r Cyhoedd<br>Trefniadau Ymgysylltu | | |
| 10 | Gweithlu<br>Cadw morál y gweithwyr yn uchel mewn cyfnod anodd | | |
| 11 | Cydweithio gydag Ynys Môn | | |
| 12 | Polisi ôl-troed Carbon<br>Asesu cyrhaeddiad | | |
| 13 | Cynllunio Argyfwng<br>Asesu cynnydd ar Adroddiad SAC | | |

07.02.13

B Pwyllgor Craffu Cymunedau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 14 | Cyflenwad a Fforddiadwyedd Tai | 18.07.12 | 04.09.12 |
| 15 | Ymchwiliad Craffu Tai | 18.09.12 | 05.02.13 |
| 16 | Ffordd Osgoi | 30.10.12 | 04.12.12 |
| 17 | Strategaeth Wastraff | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 18 | Cludiant<br>Cysondeb darpariaeth i Fyfyrwyr ar draws y Sir | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 19 | Ynni Gwynt<br>Trefniadau ymgynghori | 30.12.12 | 04.12.12 |
| 20 | Grymuso Cymuned<br>Cydweithio gyda phartneriaid yn lleol | | |
| 21 | Balchder Bangor<br>Ystyried cynnydd a gwersi i'w dysgu a'u rhannu ar draws y Sir | | |
| 22 | Defnydd o Eiddo gwag<br>Ystyried effaith polisïau'r Cyngor a'i bartneriaid | | |
| 23 | Ffioedd Parcio<br>Ystyried cysondeb ar draws y Sir | | |
| 24 | Defnydd o lwybrau beicio<br>Ystyried cynnydd ar safon a defnydd | | |
| 25 | Parc Glynllifon a Pharc Padarn<br>Ystyried cynnydd | | |
| 26 | Rhandiroedd<br>Herio cyflawniad ar y polisïau cyfredol a'r is-ddeddfau perthnasol | | |
| 27 | Parthau Cadwraeth Morol | | |

07.02.13

| | | | |
|---|---|---|---|
| 28 | Cynllun Prentisiaeth<br>Ystyried cynnydd | | |
| 29 | Cyflwr Ffyrdd Cefn Gwlad<br>Ystyried problemau a datrysiadau posibl | | |
| 30 | Twristiaeth<br>Asesu effaith ar economi Gwynedd | | |
| 31 | Casgliadau Ysbwriel<br>Angen gwybodaeth | | |
| 32 | Rheoli Carafanio Dros Nos<br>Angen gwybodaeth | | |
| 53 | Tai Cymdeithasol | 30.12.12 | 05.02.13 |
| 54 | Cyfnod Meddiannu Carafanau Sefydlog | 19.02.13 | |

C Pwyllgor Craffu Gwasanaethau

| | Eitem | Dyddiad Cyfarfod Paratoi | Dyddiad Pwyllgor Craffu |
|---|---|---|---|
| 33 | Gwasanaeth Ieuenctid<br>Cynnydd ar Raglen Wella'r Adolygiad | 25.06.12 | 31.07.12 |
| 34 | Strategaeth Addysg<br>Ystyried cynnydd hyd yn hyn<br>Sefydlu Gweithgor i gefnogi'r Aelod Cabinet<br>Cadarnhâd o'r goblygiadau | 25.06.12 | 31.07.12<br><br>13.09.12<br>15.11.12 |
| 35 | Ymchwiliad Craffu i Ansawdd Addysg | 25.06.12 | |
| 36 | Newid mewn Gofal Iechyd yng Ngogledd Cymru – Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr | | 13.09.12 |
| 37 | Canolfannau Hamdden<br>Ystyried cynnydd ar yr Adolygiad Strategol | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 38 | Cynllun Comisiynu Anabledd Corfforol<br>Ystyried Cynnydd y Cynllun | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 39 | Anabledd ac Awtistiaeth | | |

07.02.13

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Ystyried gwybodaeth | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 40 | Cynllun Comisiynu Pobl Hŷn<br>Ystyried gwybodaeth 'Urddas mewn Gofal' | 11.10.12 | 15.11.12 |
| 41 | Plant mewn Gofal | | |
| 42 | Tiroedd a drosglwyddwyd i Cartrefi Cymunedol Gwynedd | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 43 | Darpariaeth Gwasanaethau'n Lleol | | |
| 44 | Llwybr i Gyflogaeth | | |
| 45 | Teleofal ac Offer Cefnogi Pobl | 22.11.12 | 10.01.13 |
| 46 | Ymyrraeth Ddwys – Cefnogi Teuluoedd | | |
| 47 | Pobl Ifanc<br>Cynnydd ar ddarparu cyfleoedd i rai sy'n ddiwaith i gael mynediad i brofiadau gwaith a gwaith | | |
| 48 | Cynllun Tlodi Plant | | |
| 49 | Cefnogaeth i Ofalwyr | | |
| 50 | Panel Rhiant Corfforaethol | | |
| 51 | Materion o Gynllun Gwella 2011-12<br>- Cynlluniau Gwella Iechyd (Tud 79)<br>- Gwelliannau Iaith (Tud 84-86)<br>- | | |
| 52 | Adroddiad Gwasanaethau Plant Sir Benfro | 17.01.13 | 21.02.13 |

07.02.13